



POLISI CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU

Mabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethol :

Llofnod y Cadeirydd: Dyddiad:

Llofnod y Pennaeth: Dyddiad:

Dyddiad Adolygu:

Nod ac amcanion:

- darparu cwricwlwm camddefnyddio sylweddau eang a chytbwys sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol, emosiynol a chorfforol bob disgybl ac yn eu paratoi ar gyfer y cyfleoedd, cyfrifoldebau a heriau bywyd fel oedolyn. Anelwn i fod yn sensitif a pharchu gwahaniaethau tra'n galluogi disgyblion i ddeall y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio a chamddefnyddio sylweddau;
- darparu dull safonedig o reoli achosion sy'n ymwneud â sylweddau gydag ystyriaeth ofalus o'n goblygiadau; i amddiffyn lles yr ysgol gyfan a rhoi negeseuon priodol i staff a disgyblion, gan sicrhau fod bob achos yn cael ei drin gyda chysondeb;
- darparu amgylchedd di-fwg diogel i bawb.

Cysylltiadau i ganllawiau cenedlaethol a pholisïau ysgol eraill:

Datblygwyd y polisi hwn trwy gyfeirio at y dogfennau canlynol gan Lywodraeth Cymru:

- Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed - Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2008 – 2018.
- Canllawiau drafft ar Addysg Camddefnyddio Sylweddau (2012).
- Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol (2008).
- Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant i rai 3 i 7 Oed yng Nghymru (2008).

Ni ddylid edrych ar y polisi hwn yn ynysig gan fod ganddo gysylltiadau clir gyda'r polisïau ysgol canlynol:

- Ymddygiad;
- Gweinyddu Meddyginiaeth;
- Gwrth-fwlio;
- Iechyd a diogelwch;
- Aseidiadau Risg Conwy;
- Ymweliadau ysgol;
- Diogelu plant;
- ABCh;
- Cydraddoldeb;
- Disgyblu staff;
- Polisi dim ysmegu Sir Conwy.

Diffiniadau a therminoleg:

Y diffiniad safonol o gyffur neu sylwedd a ddefnyddir ar gyfer y polisi hwn yw - *'Sylwedd yw rhywbeth mae pobl yn ei gymryd i newid y ffordd maent yn teimlo, meddwl neu ymddwyn'* (Cenhedloedd Unedig). At bwrpas y polisi hwn mae hyn yn cynnwys ystod eang o sylweddau, cyfreithlon ac anghyfreithlon. Er enghraifft:

- Tybaco;
- E-sigarennau, 'vaporizers';
- Alcohol;
- Meddyginiaeth dros y cownter;
- Meddyginiaeth presgripsiwn yn unig megis steroidau anabolic a benzodiazepines;
- Sylweddau anghyfreithlon megis heroin, cocaine, anffetaminau, LSD, canabis, madarch hud;
- Sylweddau anweddol megis aerosolau, bwtan, toddyddion a gludion;
- *Highs* cyfreithlon.

O dan y Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 mae'r canlynol yn droseddau:

- meddiant o gyffur rheoledig yn anghyfreithlon;
- meddiant o gyffur rheoledig gyda bwriad i'w gyflenwi;
- cyflenwi neu gynnig cyflenwi cyffur rheoledig (hyd yn oed pan na ofynnir am arian am y cyffur);
- caniatáu i adeiladau rydych yn eu meddiannu neu reoli i gael eu defnyddio yn anghyfreithlon i gynhyrchu neu gyflenwi cyffuriau rheoledig.

Eithriadau i'r Polisi:

Er nad oes lle i sylweddau anghyfreithlon yn ein hysgol, mae achosion ble gallai rhai sylweddau fod yn ein hysgol yn gyfreithlon:

- **meddyginiaethau:** caniateir defnyddio meddyginiaethau presgripsiwn a dros y cownter pan fônt yn cael eu hawdurdodi trwy lythyr gan riant i'n hysgol at ddefnydd y disgybl yn unig. (Gweler Polisi Gweinyddu Meddyginiaeth). Os yw disgyblion yn cyflenwi cyffuriau presgripsiwn i eraill yn yr ysgol, maent yn gweithredu yn anghyfreithlon ac felly bydd y polisi hwn yn weithredol.
- **sylweddau anweddol:** y rhai a ddefnyddir gan adrannau penodol yn ein hysgol.
- **alcohol:** Mae'n drosedd o dan y Ddeddf Drwyddedu 1964 i werthu alcohol heb drwydded. Nid yw'r ysgol yn caniatáu defnydd o alcohol mewn digwyddiadau ysgol.

Rhesymeg:

Mae camddefnyddio sylweddau gan gynnwys tybaco, alcohol a chyffuriau cyfreithlon/anghyfreithlon yn bryder iechyd cyhoeddus mawr yng Nghymru a gellir cysylltu'r olaf gydag ymddygiad troseddol. Rydym yn cydnabod fod rhaglenni addysg cyffuriau ac alcohol o ansawdd da sy'n seiliedig ar sgiliau yn gallu helpu disgyblion i wneud penderfyniadau cyfrifol, gwybodus am sylweddau a ddefnyddir a/neu a gamddefnyddir mewn cymdeithas. Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am ddiogelwch cymuned ein hysgol a phwysigrwydd cael agwedd gyson i ymdrin ag achosion o gamddefnyddio sylweddau. Rydym yn rhan o Gynllun Ysgolion Iach y Sir ac yn cydnabod gwerth cymryd agwedd ysgol gyfan sy'n cynnwys y cwricwlwm, amgylchedd ysgol, ethos, arweinyddiaeth a chysylltiadau cymunedol.

Datblygu'r polisi:

Addaswyd y polisi hwn o dempled a ddatblygwyd gan yr ALL, a ymgynghorwyd gyda:

- Gwasanaeth camddefnyddio sylweddau pobl ifanc (Barnardos);
- Swyddogion cyswllt ysgol yr heddlu;
- Cydlynwyr ysgolion iach;
- Gwasanaeth nyrsio ysgolion;
- Ysgolion;
- Iechyd cyhoeddus Cymru;
- Adnoddau dynol.

Cyfrifoldebau allweddol:

Gweithredu'r polisi a rheoli achosion/trefniadau disgyblaethol	Pennaeth
Ail unigolyn a enwyd yn absenoldeb y pennaeth	
Addysg camddefnyddio sylweddau	Cydlynnydd ABaCh

Er mwyn cydymffurfio gyda'r gofynion hyn, bydd y Pennaeth yn:

- cadw trosolwg o lunio ac adolygu'r polisi hwn a sicrhau fod yr holl unigolion perthnasol gan gynnwys disgyblion yn ei ddeall;
- cynnal gwyliaidwriaeth dros adeiladau a thir yr ysgol trwy'r timau dyletswydd yn gweithredu hyd eithaf eu gallu o fewn cyfyngiadau amser;
- sefydlu systemau i oruchwylio a chydlynu trefniadau camddefnyddio sylweddau;

- cadw cofnod o bob achos o gamddefnyddio sylweddau;
- dilyn unrhyw gyngor gan yr heddlu ac ymgynghori'n agos gyda hwy i sicrhau fod polisi lleol cytûn ar gyfer ymdrin ag ystod o achosion o gamddefnyddio sylweddau anghyfreithlon a allai godi.

Bydd y cydlynnydd ABCh yn gyfrifol am:

- llunio'r rhaglen astudio a thrafod gyda chydweithwyr i sicrhau darpariaeth ar draws yr ysgol;
- monitro ac arfarnu'r rhaglen astudio a'r adnoddau a ddefnyddir;
- ymgynghori gyda disgyblion;
- trafod gydag asiantau allanol a chydlynu eu cefnogaeth gyda'r rhaglen addysgu camddefnyddio sylweddau.

Ble mae'r polisi yn berthnasol?:

Ni chaniateir camddefnyddio sylweddau (gan gynnwys ysmegu) mewn unrhyw ran o'r ysgol.

Tiroedd:

- Ni chaniateir ysmegu ger mynedfeydd neu ffenestri'r adeilad neu unrhyw le arall tu allan sy'n agos, ble gall mwg effeithio ar eraill neu bortreadu delwedd negyddol o'r cyngor/ysgol.
- Ni ddarperir manau ysmegu dynodedig yn neu ar dir yr ysgol. Mae hyn yn unol â Pholisi Dim Ysmegu Conwy. Bydd yr arwyddion dim ysmegu cyfreithiol yn cael eu harddangos mewn lle amlwg ym mhob mynedfa i adeilad yr ysgol yn unol â deddf 2007.
- Defnyddir arwyddion eraill mewn rhannau eraill o'r ysgol a'r tiroedd.

Cerbydau:

- Yn unol â Gwaharddiad Ysmegu Cymru (2007) ni chaniateir ysmegu mewn unrhyw gerbyd masnachol sy'n cludo disgyblion ar deithiau/tripiau.
- Gofynnir i'n staff beidio ag ysmegu yn eu cerbydau eu hunain, pan gludir teithwyr ar ran yr ysgol.
- Bydd rhieni sy'n cludo disgyblion i ac o ddigwyddiadau ysgol yn cael eu hatgoffa ynglŷn â pholisi'r ysgol a gofynnir iddynt gydymffurfio.

Pryd mae'r polisi hwn yn berthnasol?:

Mae trefniadau ac ymarferion y polisi hwn yn berthnasol 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, gan gynnwys:

- i bob sesiwn cyn ac ar ôl ysgol;

- cyfarfodydd neu ddigwyddiadau a fynychir gan staff yr ysgol fel rhan o'u gwaith a/neu rieni ac ymwelwyr i gyfarfodydd/digwyddiadau o'r fath. Er enghraifft mabolgampau, ffeiriau ysgol, nosweithiau rhieni etc.;
- ymweliadau ysgol addysgol;
- cludiant ysgol.

I bwy mae'r polisi yn berthnasol?:

Mae'r polisi yn berthnasol i'r holl staff addysgu - parhaol, dros dro, llawn neu ran amser a llanw; athrawon peripatetig; staff cefnogi; staff ffreutur; gofalwyr a glanhawyr; staff gweinyddol; myfyrwyr; contractwyr; rhieni/ymwelwyr; asiantau allanol; aelodau pwyllgor megis Llywodraethwyr, CRhA, y cyhoedd; a bob disgybl sy'n defnyddio adeiladau neu gerbydau yr ysgol.

Cyflwyno addysg camddefnyddio sylweddau:

Nod ein haddysg camddefnyddio sylweddau yw grymuso disgyblion i wneud penderfyniadau cyfrifol, addas am sylweddau a ddefnyddir a/neu a gamddefnyddir mewn cymdeithas. Rydym yn cydnabod ein bod yn byw mewn cymdeithas amrywiol ac mae disgyblion yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd teuluol. Bydd ein rhaglen yn anfeirniadol heb ystrydebu a stigma. Ni fydd credoau ac agweddau personol staff neu asiantau allanol yn dylanwadu ar raglenni addysg. Mae'r rhaglen ar gyfer bob grŵp blwyddyn wedi ei gosod ar y map cwricwlwm sydd ynghlwm. Mae cynlluniau manylach ar gael yng nghynlluniau'r cyfnod sylfaen, gwyddoniaeth ac ABCh. **Gweler ATODIAD 1.**

Cyfnod Sylfaen

Bydd addysg camddefnyddio sylweddau yn y cyfnod sylfaen yn canolbwyntio'n bennaf ar y defnydd o feddyginiaethau fel cyffuriau a materion diogelwch. Fe'i addysgir o fewn cyd-destun datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol ac nid fel pwnc ar ei ben ei hun. Datblygir sgiliau ar draws sawl maes dysgu y cyfnod sylfaen gan gynnwys: datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol, datblygiad corfforol a gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd. Fel gyda bob agwedd ar ddysgu yn y cyfnod sylfaen cyflwynir addysg camddefnyddio sylweddau trwy gydbwysedd rhwng dysgu trwy brofiad strwythuredig, gweithgareddau a ddechreuir gan ddisgyblion a'r rhai a gyfarwyddir gan ymarferwyr.

Cyfnod Allweddol 2 (CA2)

Bydd y prif ganolbwynt ar gynnal diogelwch personol yng nghyd-destun tybaco, alcohol a chyffuriau cyfreithlon/anghyfreithlon eraill. Bydd y cydlynwyr ABCh a gwyddoniaeth yn gyfrifol am gyflwyno addysg camddefnyddio sylweddau a rhoi cefnogaeth i athrawon dosbarth. Fel arfer bydd athrawon dosbarth yn gyfrifol am ddarparu'r rhaglen, ynghyd â chyfraniad sylweddol gan swyddog cyswllt yr heddlu.

Adnoddau a chefnogaeth asiantau allanol

O dro i dro byddwn yn gweithio gydag asiantau priodol i gyfrannu at agweddau penodol o'r rhaglen. Gofynnir iddynt weithio o fewn cynnwys y polisi hwn.

Cyfnod Sylfaen

- Swyddog cyswllt yr heddlu
- Amser cylch
- Amgylchedd dysgu – doctor, fferyllfa etc
- Rhaglen ABaCh

Cyfnod Allweddol 2

- Swyddog cyswllt yr heddlu
- Amser cylch
- Smokebugs
- Dangerpoint
- SENSE - ABaCh

Datblygiad proffesiynol parhaus:

- bydd staff yn cael cyfle i fynd ar gyrsiau priodol;
- bydd staff yn gwrandao ar sesiynau a gyflwynir gan asiantau allanol;
- bydd ymarfer da yn cael ei rannu trwy arsylwadau dosbarth, cymunedau dysgu proffesiynol a thrafodaethau mewn cyfarfodydd staff.

Addysg rhieni:

- byddwn yn gadael i rieni wybod pan fod asiantau allanol yn rhan o sesiynau;
- byddwn yn cynnal digwyddiadau addysg i rieni pan fo angen.

Rheoli achosion o gamddefnyddio sylweddau:

Mathau o ddigwyddiadau:

Gall achosion ddigwydd yn annisgwyl felly mae gennym ganllawiau manwl i gefnogi staff i gymryd y camau priodol. Gall achosion o gamddefnyddio sylweddau ymwneud â disgyblion, aelodau o staff, rhieni/gofalwyr neu oedolion eraill. Gallai'r math o achos gynnwys: gwybodaeth am gamddefnyddio posib, camddefnyddio amlwg ar dir yr ysgol, oedolion o dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol yn dod i gasglu eu plant. Bydd bob achos yn cael ei drin yn ddifrifol a dywedir wrth y Pennaeth. Gyda phenderfyniadau ynglŷn â'r camau priodol i'w cymryd, lles a diogelwch y disgyblion a'r ysgol gyfan fydd y flaenoriaeth gyntaf. Os ymddengys fod unrhyw un yn sâl neu'n anniogel o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau, bydd trefniadau cymorth cyntaf yn cael eu dilyn. Os amheuir fod disgybl wedi dioddef, neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol, bydd trefniadau diogelu yn cael eu dilyn. Pan fo gweithgarwch troseddol yn cael ei ddatgelu neu ei amau byddwn yn hysbysu'r heddlu ynglŷn â'r mater. Am ganllawiau manylach edrychwch ar **ATODIAD 2 a 3**.

Cyfraniad yr Heddlu:

Mae tri prif lefel o ymateb gall yr Heddlu ei ddarparu pan yn ymateb i achos o gamddefnyddio sylweddau:

- 1) casglu a gwaredu unrhyw sylweddau amheus;
- 2) ymchwiliad ar y cyd; a
- 3) ymchwiliad ffurfiol gan yr Heddlu.

Ar gyfer POB achos o gamddefnyddio sylweddau bydd yr ysgol yn cynnwys Swyddog Heddlu yr Ysgol yn hytrach na gwasanaeth brys yr heddlu. Fodd bynnag, os nad yw'r Swyddog ar gael a bod y sefyllfa'n un frys, yna efallai bod galwad 999 yn angenrheidiol er mwyn cael ymateb cyflym. Er enghraifft, pan fo rhiant/gofalwr ar fin gyrru eu plentyn gartref ac o dan amheuaeth nad yw'n ffit i wneud hynny oherwydd meddwdod.

Trefniadau ar gyfer rheoli achos sy'n ymwneud â disgyblion (ATODIAD 2):

Bydd staff sy'n dod yn ymwybodol o anawsterau a/neu achosion sy'n ymwneud â disgyblion a sylweddau yn hysbysu'r Pennaeth. Bydd yr ymateb yn dibynnu ar y math a'r lefel o risg, gyda rhai sefyllfaoedd yn gofyn am gamau brys. Ym mhob achos mae diogelwch y disgyblion yn flaenoriaeth. Bydd rhieni/gofalwyr yn cael eu hysbysu oni bai fod pryderon diogelu.

Trefniadau ar gyfer ymdrin â disgybl ar ôl digwyddiad

Mae cyffuriau ac alcohol yn effeithio ar ymddygiad. Ni fydd y ffaith fod cyffuriau neu alcohol wedi achosi i ddisgybl ymddwyn yn amhriodol yn cael ei weld fel ffactor lliniarol – bydd yr ymddygiad yn cael ei drin gan ddefnyddio ein Polisi Ymddygiad.

Nid ein swyddogaeth ni yw darparu gofal meddygol i'r rhai sydd o dan ddylanwad diod neu gyffuriau. Os yw disgybl mewn perygl oherwydd cyflwr meddyliol diffygiol, cysylltir â'r rhieni a bydd rhaid iddynt gymryd rheolaeth o'u plentyn. Os yw hynny yn aflwyddiannus, gofynnir i unrhyw gyswllt brys gynorthwyo. Fel arall cysylltir â'r gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu am gyngor.

Ni fydd disgybl yn cael ei ryddhau i gerdded, beicio neu ddal y bws adref os oes pryder am nam meddyliol o ganlyniad i unrhyw sylwedd. Pe bai angen, defnyddir grym rhesymol i ffrwyno'r disgybl. Mae gan unrhyw aelod o staff yr awdurdod i ddefnyddio grym yn yr amgylchiadau hyn.

Trefniadau ar gyfer ymdrin ag achosion sy'n ymwneud â staff (ATODIAD 3):

Ein blaenoriaeth yw diogelwch y disgyblion sy'n ein gofal. Ymdrin a achosion o gamddefnyddio sylweddau (yn cynnwys tybaco ac alcohol) gan staff o dan Bolisi Alcohol a Chyffuriau Conwy 2010 a Pholisi Ysmygu Conwy 2011. Gwneir pob aelod o staff yn ymwybodol o gynnwys ac oblygiadau cyflogaeth y polisiau hyn.

Caiff pob achos o gamddefnyddio sylweddau eu rheoli gan Gorff Llywodreathol yr ysgol ar y cyd ag Adran Adnoddau Dynol y Sir.

Trefn ar gyfer ymdrin ag oedolion (nid staff) (ATODIAD 3):

Ni fyddwn yn rhyddhau disgyblion i ofal oedolion eraill pan fo posibilrwydd o niwed i'r disgybl hwnnw. Pan fo tystiolaeth fod rhieni, gofalwyr sy'n cyrraedd yr ysgol i gasglu disgyblion o dan ddylanwad sylwedd, cysylltir â'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu yn unol â'n *Polisi Diogelu*.

Pan fydd rhiant neu ymwelydd yn / neu os ymddengys eu bod o dan ddylanwad sylwedd ar dir yr ysgol gofynnir iddynt adael yn syth. Bydd diogelwch y rhiant/ymwelydd yn cael ei sicrhau, gyda goruchwyliaeth pe bai angen. Os bydd sylweddau anghyfreithlon, hysbysir yr heddlu.

Os yw oedolyn yn ysmegu ar safle'r ysgol gofynnir iddynt ddiffodd y sigarét neu adael y safle.

Mae camau sydd angen cyfeirio at sefydliadau eraill yn cynnwys:

- ymchwilio i weithgarwch troseddol, gan gynnwys chwilio unigolion neu eiddo personol;
- heblaw cymorth cyntaf brys, unrhyw argyfwng iechyd neu feddygol y dylai staff meddygol priodol eu trin;
- mae asesu a darparu cefnogaeth a gwasanaethau i blant a theuluoedd bregus yn faterion i'r gwasanaethau cymdeithasol;
- mae rhaglenni cwnsela a thriniaeth cyffuriau angen staff a hyfforddwyd, fel arfer ar gael trwy'r gwasanaethau cymdeithasol, iechyd neu wasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol.

Trefn ar gyfer darganfod cyffuriau neu daclau cyffuriau ar dir yr ysgol:

Os deuir o hyd i gyffuriau ar dir ein hysgol:

- hysbysir y Pennaeth;
- cedwir y cyffuriau mewn lle diogel, gydag o leiaf dau aelod o staff yn dyst;
- os amheuir eu bod yn gyffuriau anghyfreithlon, cysylltir â swyddog cyswllt yr heddlu;
- bydd ffurflen ddigwyddiad yn cael ei llenwi a'i harwyddo gan y tystion.

Os deuir o hyd i nodwyddau, chwistrellau neu daclau cyffuriau ar dir ein hysgol:

- hysbysir y Pennaeth;
- rhoddir y taclau mewn bocs pethau miniog, gan ddefnyddio menig a 'tweezers';
- cysylltir â'r gwasanaethau amgylcheddol i wasgu'r bocs;

- hysbysir yr heddlu;
- bydd ffurflen ddigwyddiad yn cael ei llenwi;
- addysg gyda'r disgyblion.

Oriau tu allan i'r ysgol:

Nid oes gan yr ysgol unrhyw swyddogaeth wrth ymdrin ag achosion o gamddefnyddio sylweddau y tu allan i oriau a thir yr ysgol heblaw:

- ar dripiâu ac ymweliadau ysgol, pan fydd yr un rheolau a threfniadau yn berthnasol cyn belled ag sy'n rhesymol ac ymarferol;
- trwy roi gwybodaeth i asiantau perthnasol pan fo diogelwch neu les disgybl yn cael ei fygwth;
- cynorthwyo'r heddlu i atal y defnydd o dir o amgylch yr ysgol ar gyfer masnachu cyffuriau;
- pan fo camddefnyddio sylweddau gan oedolion yn effeithio ar ddiogelwch disgybl;
- os yw achosion yn digwydd yn y gymuned leol byddwn yn gwneud gwaith ychwanegol gydag asiantau allanol priodol i atgyfnerthu negeseuon allweddol trwy ABCh a gwasanaethau ysgol.

Chwilio

- Ni all staff ysgol archwilio disgyblion neu oedolion yn bersonol, eu dillad na'u heiddo personol heb ganiatâd hyd yn oed os ydynt yn amau eu bod yn meddu ar sylwedd neu eitem waharddedig.
- Fodd bynnag gallant ofyn i rywun droi eu pocedi allan, gwagu bagiau etc. Os yw ymdrechion i berswadio rhywun a amheuir o gamddefnyddio sylweddau i gydymffurfio â'r cais hwn yn methu, yna gall yr ysgol wneud un neu ddau o'r canlynol: yn achos disgybl, cysylltu â'r rhieni a gofyn iddynt ddod i'r ysgol a chwilio'r disgybl a'i eiddo; NEU symud ar yn ffurfiol a chysylltu â'r heddlu.
- Ni all staff gadw disgybl neu oedolyn heb eu caniatâd er mwyn eu chwilio.
- Gall staff chwilio eiddo'r ysgol e.e. desgiau, loceri, er y dylid gofyn am ganiatâd o flaen llaw. Gellir chwilio hyd yn oed os gwrthodir caniatâd.
- Bydd angen i ysgolion gydbwyso'r tebygolrwydd fod trosedd wedi ei chyflawni yn erbyn y risg o dorri preifatrwydd yr unigolyn heb achos cyfiawn.

Cyswllt gyda rhieni

Bydd ymgais resymol i gysylltu â rhieni i'w hysbysu y bydd eu plentyn yn cael eu chwilio. Nid oes gan rieni y hawl i atal chwilio nag i'w oedi yn ormodol. Mae'r heddlu yn gyfyngedig iawn yn eu pwerau i gadw rhywun cyn chwilio. Os gellir cysylltu â rhieni a'u bod yn gallu mynd i safle'r ysgol, byddant yn cael eu cymryd i'r ystafell ble bydd y chwilio yn digwydd. Bydd rhieni yn cael gwybod am unrhyw achos o gamddefnyddio sylweddau oni bai:

- fod pryderon ynghylch diogelu;

- y byddai'n amharu ar ymchwiliad ysgol;
- y byddai'n amharu ar ymchwiliad yr heddlu;
- y gallai olygu mwy o niwed i'r disgybl am reswm arall.

Fel arfer cysylltir â rhieni yn uniongyrchol ar y ffôn os bydd achos o gamddefnyddio sylweddau. Os yw'n cael ei amau ac nid ei brofi, bydd y protocol heddlu a gytunwyd yn cael ei weithredu.

Cyswllt gyda'r heddlu:

Pan roddir gwybodaeth i'r heddlu, gofynnir am chwilio a phwysleisir, ble bynnag fo'n bosib, y bydd swyddogion dillad plaen neu swyddogion amddiffyn teulu yn mynychu. Dim ond fel dewis olaf, neu os oes angen cynnal y chwilio yn sydyn y bydd swyddogion mewn gwisg yn mynychu'r ysgol.

Ar ôl cyrraedd, bydd swyddogion yn cael gwybod beth yw natur yr honiad a'r hyder yn y ffynhonnell gwybodaeth. Byddant yn cael eu hebrwng i'r ystafell ble bydd y chwilio yn digwydd, os yw'r disgybl eisoes wedi ei gadw.

Pan nad yw'r rhieni yn bresennol bydd aelod o staff ysgol (addysgu neu gefnogi) yn bresennol trwy gydol y chwilio. Er y bydd rhai cwestiynau yn gysylltiedig â'r chwilio yn cael ei ganiatáu, ni chaniateir cyfweiliad ffurfiol oni bai fod rhieni yn bresennol. Mae'n annhebygol iawn y bydd cyfweiliad o'r fath yn digwydd ar dir yr ysgol.

Dylai staff fod yn wyladwrus o unrhyw ymgais gan y disgybl i ddianc er mwyn cael gwared ag unrhyw gyffuriau, neu geisio rhoi cyffuriau i unrhyw ddisgybl arall un ai yn y dosbarth neu ar y ffordd i'r chwilio.

Cyswllt gyda'r cyfryngau:

Ni fydd staff yn dweud wrth y wasg leol a'r cyfryngau yn gyffredinol ynglŷn â digwyddiadau a/neu faterion sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau. Bydd y pennaeth, mewn ymgynghoriad gyda swyddfa'r wasg y sir a'r llywodraethwyr yn ymdrin yn bersonol gyda bob mater sy'n ymwneud â'r cyfryngau. Bydd bob mater sy'n ymwneud â'r cyfryngau yn cael eu cyfeirio at Swyddog Wasg y Sir.

Cofnodi digwyddiadau:

Cedwir cofnodion o BOB achos o gamddefnyddio sylweddau a rhai cysylltiedig gan ddefnyddio **ATODIAD 4**.

Diogelu a Chyfrinachedd:

Efallai y bydd angen dilyn Trefniadau Diogelu Plant Lleol os yw diogelwch neu les disgybl (neu ddisgybl arall) o dan fygythiad. **O dan Drefniadau Diogelu Plant Cymru Gyfan 2008, mae rheidrwydd ar y rhai sydd ynghlwm ar proffesiwn i rannu gwybodaeth er mwyn diogelu “plentyn”.** Ni all Athrawon a rhai sy'n y proffesiynol gynnig chyfrinachedd di-amod i ddisgyblion mewn addysg neu ddigwyddiadau camddefnydd sylweddau a dylid gwneud hyn yn glir bob amser.

Os yw disgybl yn datgelu gwybodaeth sy'n sensitif, nad yw yn wybyddus yn gyffredinol ac mae'r disgybl yn gofyn iddo beidio cael ei hailadrodd, bydd yn cael ei drafod gydag'r Pennaeth/Cyd-lynydd Diogelu Plant. Bydd y cais yn cael ei anrhydeddu, fodd bynnag bydd chyfrinachedd yn cael ei dorri yn erbyn dymuniadau disgybl pan:

- fo pryderon diogelu;
- mae bywyd rhywun mewn perygl o niwed difrifol i eraill;
- datgelir troseddau.

Fodd bynnag, byddwn yn gwneud pob ymdrech i hysbysu'r disgybl yn gyntaf, egluro pam bod rhaid i hyn ddigwydd a diogelu cytundeb y disgybl i'r ffordd mae'r ysgol yn bwriadu defnyddio unrhyw wybodaeth sensitif.

Nid oes unrhyw ddyletswydd gyffredinol mewn cyfraith droseddol i ni fel ysgol ddatgelu gwybodaeth am gamddefnyddio sylweddau ac eithrio o dan y Ddeddf Camddefnyddio Sylweddau 1971, ble cyflawnir trosedd os yw unigolyn yn caniatáu i rywle gael ei ddefnyddio ar gyfer ysmygu canabis neu opiwm, neu gynhyrchu, cyflenwi, gweinyddu cyffuriau rheoledig, ac ni wneir unrhyw beth i'w stopio.

Trefn gwyno:

Dylai unrhyw gwynion am achosion/addysg camddefnyddio sylweddau gael eu gwneud i'r Pennaeth.

Monitro ac arfarnu:

- adolygir y polisi bob 3 mlynedd neu'n amlach os yn briodol;
- mae'r cydlynnydd ABCCh a'r cydlynnydd gwyddoniaeth yn gyfrifol am adolygu addysg camddefnyddio sylweddau yn rheolaidd i sicrhau fod rhaglenni yn ymatebol i anghenion disgyblion a bod amgylchedd dysgu cefnogol yn cael ei gynnal ar gyfer pawb;

- mae'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethol yn gyfrifol am fonitro digwyddiadau (e.e. nifer, natur, canlyniadau digwyddiadau a sawl cyfeiriad wnaed i asiantau allanol) ac adolygu trefniadau rheoli digwyddiadau;
- bydd y Pennaeth yn sicrhau fod y canfyddiadau o arfarniadau staff, rhieni a disgyblion yn cyfrannu at broses hunan arfarnu ein hysgol ac at y broses adolygu polisiau.

Atodiad 1 – Addysg camddefnyddio sylweddau

(Cysylltiadau gyda'r cyfnod sylfaen – datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywioldeb diwylliannol)


	<u>Meithrin</u>	<u>Derbyn</u>	<u>BI 1</u>	<u>BI 2</u>
Sgiliau: dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion:				
Dod yn fwy annibynnol yn eu hanghenion hylendid personol a dod yn fwy ymwybodol o ddiogelwch personol				
Cymryd cyfrifoldebau am eu gweithredoedd eu hunain				
Datblygu dealltwriaeth o ddisgwyliadau ymddygiadol y lleoliad/ysgol a deall fod rheolau yn hanfodol mewn cymuned wâr				
Datblygu hunan ddelwedd gadarnhaol a synnwyr o berthyn fel rhan o wahanol gymunedau				
Cyfathrebu am beth sy'n dda ac yn ddrwg, yn deg ac yn annheg, gofalgarg ac ystyriol				
Cyfathrebu a myfyrio ar y penderfyniadau wnaed mewn storiâu, sefyllfaoedd neu yn bersonol, gan awgrymu ymatebion eraill				
Ymateb yn bersonol i sefyllfaoedd moesol dychmygol syml gan roi rhesymau dros y penderfyniadau a wnaed				
Siarad am y dewisiadau sydd ar gael i unigolion a thrafod os yw'r dewisiadau sydd ar gael yn gwneud penderfyniad yn haws neu'n fwy cymhleth				
Parchu a chyfrannu at eu lles eu hunain ac at les eraill				
Bod yn ymwybodol o'u teimladau ei hunain a datblygu'r gallu i'w mynegi mewn ffordd briodol				
Deall y perthnasau rhwng teimladau a gweithredoedd a bod gan bobl eraill deimladau				
Datblygu dealltwriaeth fod ymarfer corff a hylendid a'r mathau cywir o fwyd a diod yn bwysig ar gyfer cyrff iach				
Gofyn am gymorth pan fo angen				
Datblygu dealltwriaeth o beryglon yn y cartref a'r amgylchedd allanol				

Deall y cymerir meddyginiaeth i wneud iddynt deimlo yn well a bod rhai cyffuriau yn beryg				
Ystod: dylai disgyblion fod yn rhan o ystod o brofiadau gan gynnwys:				
Gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt ddatrys problemau a thrafod eu deilliannau				
Gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt gyfathrebu eu syniadau, safbwyntiau a'u credoau am eu hunain, eraill a'r byd				
Gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt deimlo yn ddiogel a theimlo fel eu bod yn cael eu gwerthfawrogi				
Gweithgareddau sy'n cyfrannu at eu diogelwch eu hunain				
Gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt wneud dewisiadau iach a datblygu a deall eu cyrff eu hunain a sut i'w cadw yn ddiogel ac yn iach				


Addysg camddefnyddio sylweddau (Addysg bersonol a chymdeithasol – CA2)

	BI 3	BI 4	BI 5	BI 6
SGILIAU: Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion:				
Adnabod cysylltiadau rhwng achos ac effaith				
Gwahaniaethu rhwng 'ffeithiau', credoau a safbwyntiau				
Ffurio barn bersonol a gwneud penderfyniadau gwybodus				
Gwrando yn ofalus, cwestiynu ac ymateb i eraill				
Mynegi eu safbwyntiau a'u syniadau yn hyderus, trwy ystod o ddulliau priodol				
Cyfrannu at drafodaethau dosbarth a chymryd rhan mewn dadleuon				
Gwrthsefyll pwysau diangen gan gyfoedion ac ymddygiad				
Dangos empathi tuag at brofiadau a theimladau pobl eraill				
Rheoli gwahanol emosiynau a datblygu strategau i ddatrys gwrthdaro ac ymdrin â bwlio				
Gofyn am gefnogaeth a chyngor personol				
Datblygu sgiliau ymarferol ar gyfer bywyd bob dydd				
YSTOD: Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion:				
Ddatblygu parch tuag at eu hunain ac eraill				
Cymryd cyfrifoldeb cynyddol am gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach				
Teimlo yn gadarnhaol am eu hunain a bod yn sensitif tuag at deimladau pobl eraill				
Ystyried eu gwerthoedd personol				
Bod yn onest ac yn deg a pharchu rheolau, y gyfraith ac awdurdod				
Ac i ddeall:				
Nodweddion a manteision corfforol ac emosiynol ffordd iach o fyw				
Effeithiau niweidiol tybaco, alcohol a sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon eraill ar eu hunain ac eraill				
Pwysigrwydd diogelwch personol				
Beth i'w wneud neu at bwy i fynd os ydynt yn teimlo'n anniogel				
Fod gan bobl farn gwahanol am beth sy'n dderbyniol ac annerbyniol				
Fod gan weithredoedd personol ganlyniadau				
Gwyddoniaeth – dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion astudio:				
Enwau, safleoedd, swyddogaethau a meintiau cymharol prif organau bodau dynol				
Effaith rhai cyffuriau ar y corff dynol <i>e.e. alcohol, toddyddion, tybaco</i>				

Atodiad 2 – Achos o gamddefnyddio sylweddau yn ymwneud â disgyblion



Atodiad 3 – Achos o gamddefnyddio sylweddau yn ymwneud ag oedolion



Atodiad 4 – Cofnod o achos camddefnyddio sylweddau (gan gynnwys ysmygu)

Pobl sy'n rhan o'r digwyddiad

Enw'r disgybl(ion)	Dosbarth(iadau)	A chafwyd achos tebyg yn flaenorol D / N
Enwau'r tystion	Staff / asiantau eraill	

Math o ddiwyddiad

	✓
Ysmygu ar dir yr ysgol	
Cyffuriau, taclau cyffuriau neu sbwriel cyffuriau wedi eu canfod ar neu ger tir yr ysgol	
Disgyblion neu rieni yn meddu ar sylweddau ar dir yr ysgol, trip neu gludiant ysgol	
Disgyblion neu rieni yn camddefnyddio sylweddau ar dir yr ysgol, trip neu gludiant ysgol	
Disgyblion neu rieni yn gwerthu neu gyflenwi sylweddau ar dir yr ysgol, trip neu gludiant ysgol	
Disgybl yn datgelu eu bod yn camddefnyddio sylweddau o fewn a thu hwnt i weithgareddau'r ysgol	
Amheuaeth o gamddefnyddio sylweddau o fewn a thu hwnt i weithgareddau'r ysgol	
Symptomau o gamddefnyddio sylweddau	
Honiad o gamddefnyddio sylweddau o fewn a thu hwnt i weithgareddau'r ysgol	
Rhiant/gofalwr o dan ddylanwad wrth gasglu'r disgybl	
Rhiant / gofalwr yn mynegi pryderon am ddisgybl	
Disgybl yn datgelu bod eu rhiant / gofalwr yn camddefnyddio sylweddau	

Disgrifiad o'r digwyddiad

Dyddiad	Amser	Lleoliad	Sylweddau(au)	
Disgrifiad o'r digwyddiad gan gynnwys disgrifiad o unrhyw symptomau, beth a welwyd neu ddywedwyd a chamau a gymerwyd....				
Rhoddwyd triniaeth cymorth cyntaf <input type="checkbox"/> Do <input type="checkbox"/> Na	Gan bwy	Pa driniaeth a roddwyd		
Galwyd am ambiwlans <input type="checkbox"/> Do <input type="checkbox"/> Na	Gan bwy	Amser		
A gynhaliwyd unrhyw chwiliad? <input type="checkbox"/> Do <input type="checkbox"/> Na	Gan bwy	Disgrifiad	Enwau'r tystion	
Cymerwyd y sylweddau	Gan bwy	Ble cawsant eu cadw	Enwau'r tystion	

POLISI CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU / SUBSTANCE MISUSE POLICY

<input type="checkbox"/> Do <input type="checkbox"/> Na			
Gwaredu'r sylwedd <input type="checkbox"/> Amherthnasol <input type="checkbox"/> Toiled / sinc <input type="checkbox"/> Casglwyd gan y rhiant <input type="checkbox"/> Casglwyd gan yr heddlu	Gan bwy	Dyddiad / amser	Enwau'r tystion
A hysbyswyd y rhieni <input type="checkbox"/> Do <input type="checkbox"/> Na	Gan bwy	Enw'r rhiant	Dyddiad / amser
Pwy arall sydd wedi eu hysbysu am y digwyddiad	<input type="checkbox"/> yr heddlu <input type="checkbox"/> pennaeth <input type="checkbox"/> tiwtor dosbarth	<input type="checkbox"/> Arweinydd Sylweddau yr ysgol <input type="checkbox"/> Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc <input type="checkbox"/> Arall _____	
Tynnwyd y disgybl o'r ysgol <input type="checkbox"/> Do <input type="checkbox"/> Na	Casglwyd gan		Amser

Cwblhawyd y ffurflen gan

Enw	Llofnod	Dyddiad
-----	---------	---------

Cofnod o weithredu dilynol i achos o gamddefnyddio sylweddau

Cosb a roddwyd i'r disgybl(ion)

Cosb	Dyddiad / amser cychwyn	Dyddiad / amser gorffen
Anfonwyd llythyr at y Dyddiad rhieni/gofalwyr <input type="checkbox"/> Do <input type="checkbox"/> Na	Gan bwy	
Cosbau pellach yn dilyn ymchwiliadau / cyfarfodydd ail-integreiddio		

Achosion o ysmegu yn unig

Taflenni iechyd ysmegu a gwybodaeth lafar wedi eu rhoi i'r disgybl <input type="checkbox"/> Do <input type="checkbox"/> Na	Gan bwy	Llofnod y disgybl
Gwybodaeth am gefnogaeth stopio ysmegu wedi ei roi i'r disgybl <input type="checkbox"/> Do <input type="checkbox"/> Na		

Cyfarfod ail-integreiddio (amherthnasol ar gyfer ysmegu)

Anfonwyd llythyr cyfarfod ail-integreiddio? <input type="checkbox"/> Do <input type="checkbox"/> Na	Gan bwy	Dyddiad anfonwyd
--	---------	------------------

Pwy oedd yn bresennol (nodwch yr enw a pwy ydynt)

Dyddiad y cyfarfod	Amser y cyfarfod	Lleoliad
--------------------	------------------	----------

Pwyntiau trafod allweddol o'r cyfarfod a chamau/cefnogaeth a gytunwyd

Camau (✓)	Pwy	Manylion
<input type="checkbox"/> Rhoi taflenni a gwybodaeth lafar am sylweddau		
<input type="checkbox"/> Rhoi gwybodaeth am wasanaeth cefnogi		
<input type="checkbox"/> Cynllun cefnogaeth fugeiliol		
Cyfeirio at wasanaeth arall (✓)		
<input type="checkbox"/> Gwasanaeth camddefnyddio sylweddau pobl ifanc		
<input type="checkbox"/> Cyfeirio PAD		
<input type="checkbox"/> Gwasanaethau cymdeithasol		
<input type="checkbox"/> Arall _____		

A drefnwyd sesiwn gefnogi gydag aelod o staff ar y diwrnod dychwelyd i'r ysgol? <input type="checkbox"/> Do <input type="checkbox"/> Na	Dyddiad ac amser	Gyda phwy?	A gynhaliwyd y cyfarfod hwn? <input type="checkbox"/> Do <input type="checkbox"/> Na
--	------------------	------------	---

			Os bu i'r disgybl wrthod, rhaid iddynt arwyddo yma _____
A drefnwyd cyfarfod dilynol? <input type="checkbox"/> Do <input type="checkbox"/> Na	Dyddiad ac amser	Gyda phwy?	A gynhaliwyd hwn?

Datganiad y disgybl a'r rhiant / gofalwr

Cytunwn fod hwn yn gofnod cywir o'r drafodaeth a gynhaliwyd ac yn cadarnhau ein bod wedi cael copi o'r ffurflen hon

Enw'r disgybl	Llofnod	Dyddiad
Enw'r rhiant / gofalwr	Llofnod	Dyddiad
Enw'r staff ysgol	Llofnod	Dyddiad
Arall....	Llofnod	Dyddiad

Atodiad 5 – Llythyrau achosion o gamddefnyddio sylweddau

Annwyl

ACHOS O GAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU

Mae eich plentyn wedi bod yn gysylltiedig ag achos o gamddefnyddio sylweddau.

Y sylwedd dan sylw oedd sigarennau.

Manylion:

Mae'r ysgol ac All Sir Conwy yn ystyried camddefnyddio sylweddau yn ddifrifol iawn ac o ganlyniad i'r digwyddiad hwn bydd eich plentyn yn cael ei w/gwahardd o wersi prif ffrwd / o'r ysgol am ddiwrnod.

Mae eich plentyn wedi cael gwybodaeth am effeithiau negyddol ysmygu ar ei h/iechyd a'r gwasanaethau peidio ysmygu sydd ar gael.

Bydd eich plentyn yn dychwelyd i wersi prif ffrwd / yr ysgol ar:

POLISI CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU: LLYTHYR SAFONOL 1

Annwyl

ACHOS O GAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU

Mae eich plentyn wedi bod yn gysylltiedig ag achos o gamddefnyddio sylweddau.

Y sylwedd dan sylw oedd:

Manylion y digwyddiad:

Mae'r ysgol ac ALI Sir Conwy yn ystyried camddefnyddio sylweddau yn ddifrifol iawn ac o ganlyniad i'r digwyddiad hwn mae'r gosb ganlynol wedi ei rhoi i'ch plentyn:

Bydd eich plentyn yn dychwelyd i'r gwersi prif ffrwd / ysgol ar:

Hoffwn i chi fynychu'r cyfarfod ail-integreiddio yn yr ysgol ar gyfer eich plentyn

ar ----- am -----

Yn y cyfarfod hwn byddwn yn trafod sut i helpu eich plentyn reoli unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau a'r gefnogaeth y gall yr ysgol neu wasanaethau eraill eu cynnig i atal unrhyw ddigwyddiadau pellach a allai arwain at waharddiad.

A wnewch chi gadarnhau eich presenoldeb yn y cyfarfod hwn.

POLISI CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU: LLYTHYR SAFONOL 2

Annwyl

ACHOS O GAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU

Mae eich plentyn wedi bod yn gysylltiedig ag achos o gamddefnyddio sylweddau.

Roedd hyn yn achos difrifol o gamddefnyddio sylwedd anghyfreithlon. Y sylwedd dan sylw oedd

Manylion y digwyddiad:

Mae'r ysgol ac All Sir Conwy yn ystyried camddefnyddio sylweddau yn ddifrifol iawn ac o ganlyniad i'r digwyddiad hwn bydd eich plentyn yn cael ei g/wahardd o'r ysgol am **5 diwrnod ysgol**.

Bydd eich plentyn yn cael ei g/wahardd o'r ysgol o

a bydd yn dychwelyd i'r ysgol ar

Mae'r Heddlu a'r All hefyd wedi cael gwybod am y digwyddiad.

Hoffwn i chi fynychu'r cyfarfod ail-integreiddio yn yr ysgol ar gyfer eich plentyn

ar ----- am -----

Yn y cyfarfod hwn byddwn yn trafod sut i helpu eich plentyn reoli unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau a'r gefnogaeth y gall yr ysgol neu wasanaethau eraill eu cynnig.

MAE'N BWYSIG IAWN I NI EICH BOD CHI A'CH PLENTYN YN DEALL Y BYDDAI AIL ACHOS YN YMWNEUD Â SYLWEDD ANGHYFREITHLON YN GOLYGU GWAHARDDIAD PARHAOL O'R YSGOL.

A wnewch chi gadarnhau y byddwch yn bresennol yn y cyfarfod hwn.



SUBSTANCE MISUSE POLICY

Policy adopted by Governing Body :

Signed by Chairperson: Date:

Signed by Headteacher: Date:

Review Date:

Aims and objectives:

- provide a broad and balanced substance misuse curriculum which promotes the spiritual, moral, cultural, mental, emotional and physical development of every pupil and prepare them for the opportunities, responsibilities and challenges of adult life. We aim to be sensitive and respect differences whilst enabling pupils to understand the risks associated with substance use and misuse;
- provide a standardised approach to managing substance related incidents with due regard for our legal obligations; to protect the well-being of the whole school community and give appropriate messages to staff, pupils and parents/carers ensuring that every incident is dealt with consistently;
- provide a safe smoke-free environment for everyone.

Links to national guidance and other school policies:

This policy has been developed with reference to the following Welsh Government documents:

- Working Together to Reduce Harm- The Substance Misuse Strategy for Wales 2008 – 2018
- Draft Guidance for Substance Misuse Education (2012)
- Personal and Social Education Framework (2008)
- The Framework for Children’s Learning for 3 to 7 Year Olds in Wales (2008)

This policy should not be seen in isolation as it has clear links with the following school policies:

- School Behaviour;
- Administration of Medicine;
- Anti-bullying;
- Health and Safety;
- Risk Assessment Conwy;
- School Visits;
- Safeguarding Children;
- Personal and Social Education (PSE);
- Equalities;
- Staff Disciplinary;
- Conwy County Council No-Smoking Policy.

Definitions and terminology:

The standard definition of a drug or substance used for this policy is - *'A substance is something people take to change the way they feel, think or behave'* (United Nations). For the purpose of this policy this includes a wide range of substances, both legal and illegal. This includes:

- Tobacco;
- E-cigarettes, vaporizers;
- Alcohol;
- Over the counter medicines;
- Prescription only medicines such as anabolic steroids and benzodiazepines;
- Illegal substances such as heroin, cocaine, amphetamines, LSD, cannabis, magic mushrooms;
